## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Amcanion polisi

Amlinelliad o'r cynnig

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod bod gan blant yr hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd ac i gael cyfleusterau ar gyfer trin afiechyd ac adfer i iechyd. Mae CCUHP hefyd yn cydnabod bod gan blant yr hawl i fwynhau'r safonau iechyd corfforol ac iechyd meddwl uchaf y gellir eu cyrraedd. Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi'r hawliau hynny'n uniongyrchol drwy wella iechyd amgylcheddau bwyd ac, wrth wneud hynny, ei gwneud hi'n haws i deuluoedd a'u plant fyw bywydau iachach, yn rhydd o glefyd sy'n gysylltiedig â deiet.

Bydd Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 yn cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion penodedig â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr yn ôl cyfaint (e.e. cynigion amleitem) a lleoli'r eitemau hynny (e.e. ar ben draw eil). Bydd y cyfyngiadau yn gymwys i gategorïau bwyd sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt gordewdra yn ystod plentyndod. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys cyfyngiadau ar ail-lenwi diodydd penodedig wedi'u melysu â siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae'r strategaeth ddeng mlynedd Pwysau Iach: Cymru Iach yn nodi ein huchelgeisiau i fynd i'r afael â gordewdra ledled Cymru ac yn tynnu sylw at y dull sawl elfen a fydd yn ofynnol i gefnogi newid sylweddol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y genedl. Mae'r data yn dangos nad yw plant ac oedolion yng Nghymru yn bwyta deiet cytbwys. Rydym yn bwyta gormod o siwgr, braster dirlawn a halen, a gormod o galorïau, ond dim digon o ffibr, ffrwythau a llysiau. Er enghraifft, mae plant rhwng 11 a 18 oed yn yfed ac yn bwyta hyd at dair gwaith yr uchafswm o siwgr sy'n cael ei argymell[1].

Mae gordewdra yn parhau o blentyndod i fywyd fel oedolyn[2], ac mae plant a phobl ifanc gordew tua phum gwaith yn fwy tebygol o fod yn ordew pan fyddant yn oedolion na'r rhai nad oeddent yn ordew. Mae dros 60% o'r boblogaeth oedolion dros bwysau neu'n ordew ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ystod o glefydau cronig ac ar y blynyddoedd y bydd unigolyn yn byw gydag anabledd. Mae


[1] Llywodraeth Cymru. (2019). Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol: canlyniadau ar gyfer Blynyddoedd 5 i 9 o'r Rhaglen Dreigl i Gymru (2012/2013 – 2016/2017) a dadansoddiad o dueddiadau dros amser ac incwm (Blynyddoedd 1 i 9; 2008/09 – 2016/17)

[2] Simmonds, M et al. (2016). Predicting adult obesity from childhood obesity: a systematic review and meta-analysis. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/26696565/#:~:text=Obese%20children%20and%20adolescents%20were%20around%20five%20times,around%2070%25%20will%20be%20obese%20over%20age%2030.

gordewdra yn un o brif achosion marwolaeth a chlefydau cronig y gellir eu hatal. I lawer o blant neu oedolion â gordewdra, mae'r profiad o stigma a rhagfarn pwysau yn cyfrannu'n sylweddol at straen, gorbryder ac iselder a gall leihau hunanhyder, hunan-barch a hunan-werth.

Mae Rhaglen Mesur Plant 2022-23[3] yn dangos:

- Ar lefel Cymru gyfan, 0.9% oedd cyfran y plant â thanbwysau, sydd ychydig yn uwch na'r 0.7% a adroddwyd cyn y pandemig yn 2018/19.
- Cyfran y plant â phwysau iach oedd 74.3%. Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyn y pandemig gyda chyfran o 72.4% wedi'i hadrodd yn 2018/19.
- Cyfran y plant â gorbwysau ac â gordewdra oedd 13.4% a 11.4% yn y drefn honno. Roedd y rhain yn ystadegol sylweddol is na'r cyfrannau â gorbwysau (14.4%) ac â gordewdra (12.6%) a adroddwyd yn 2018/19. Dangosir y duedd yng nghyfran y plant â gordewdra dros amser yn y Ffigur isod. Er bod y gyfran ar draws Cymru yn is na chyn y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniad hwn o ystyried y data coll yn ystod y pandemig a'r ffaith mai dim ond un pwynt data a fu ar ôl y pandemig. Mae hyn yn golygu na allwn fod yn hyderus eto bod hyn yn duedd.




- Roedd cyfran y plant â gordewdra yng Nghymru yn uwch na'r gyfran a adroddwyd ar gyfer Lloegr a'r Alban.

- Roedd plant sy'n byw yn y 'pumed amddifadedd' lleiaf difreintiedig yn ôl cod post preswyl yn llai tebygol yn ystadegol o fod â gordewdra o'i gymharu â phob pumed amddifadedd arall.


---

[3] Rhaglen Mesur Plant 2022-23 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

**Table 1:** Wales Level Deprivation Data Summary, Children aged 4-5 years, Child Measurement Programme 2022/23

| *Deprivation fifth* | *Participation* | *With Healthy Weight proportion, 95% CI* | | *With Overweight proportion, 95% CI* | | *With Obesity proportion, 95% CI* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Least deprived fifth | 92.3% | 79.4% | (78.3-80.5) | 11.8% | (11.0-12.7) | 7.8% | (7.1-8.6) |
| Next least deprived | 92.1% | 75.6% | (74.4-76.7) | 12.9% | (12.0-13.8) | 10.6% | (9.8-11.4) |
| Middle deprived | 91.8% | 73.8% | (72.7-74.9) | 13.6% | (12.7-14.5) | 11.6% | (10.8-12.5) |
| Next most deprived | 91.0% | 72.6% | (71.4-73.7) | 14.0% | (13.1-14.9) | 12.7% | (11.9-13.6) |
| Most deprived fifth | 90.6% | 71.2% | (70.2-72.2) | 14.2% | (13.4-15.0) | 13.6% | (12.8-14.4) |

**Figure 2:**





## Cynnig ac Effeithiau

Y bwriad yw y bydd Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 o fudd i iechyd pob plentyn. Nid yw camau gweithredu gwirfoddol gan y diwydiant i helpu'r cyhoedd i wneud dewisiadau iachach (ailfformiwleiddio, labelu maeth etc.) wedi'u cyflawni'n gyson nac wedi cael yr effaith a ddymunir ar newid deietegol. Bydd y Rheoliadau yn sicrhau sefyllfa gyfartal drwy gyfyngu ar hyrwyddo bwyd nad yw'n iach a chymell ailfformiwleiddio bwydydd i'w gwneud yn iach yn y tymor hwy.

Mae marchnata a hyrwyddiadau mewn siopau yn helaeth, wedi'u hen sefydlu ac yn effeithiol o ran dylanwadu ar y bwyd y mae pobl yn ei ddewis a'i brynu. Mae hyrwyddiadau pris yn apelio at bobl o bob grŵp demograffig ac yn aml yn arwain pobl i brynu mwy o'r categori a hyrwyddir na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae plant yn unigryw agored[4] i'r technegau a ddefnyddir i hyrwyddo gwerthiant. Bwriad y cynnig yw atal plant rhag gorfwyta bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr a gwella'r amgylchedd bwyd ehangach drwy ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau iach.

Mae'r Rhaglen Mesur Plant yn dangos bwlch anghydraddoldeb sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd, gyda'r cyfraddau gordewdra mwyaf yn bresennol mewn cymunedau lle mae lefelau amddifadedd uwch.




[4] Carter, Owen B J et al. (2011) Children's understanding of the selling versus persuasive intent of junk food advertising: implications for regulation. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/21349621/

Yn ein hymgynghoriad yn 2024 ar y rheoliadau drafft a'r dull gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025, cododd rhai ymatebwyr yr angen i ystyried ymhellach y potensial ar gyfer cyfyngiadau ar hyrwyddo i gynyddu cost siopa bwyd i deuluoedd a'u plant. Er ei bod yn ymddangos bod hyrwyddiadau pris yn fecanweithiau i helpu defnyddwyr i arbed arian, mae data'n dangos eu bod yn cynyddu gwariant defnyddwyr drwy annog pobl i brynu mwy nag yr oeddent yn bwriadu ei brynu yn y lle cyntaf. Mae hyrwyddiadau pris yn apelio at bobl o bob grŵp demograffig ac yn cynyddu faint o fwyd a diod y mae pobl yn ei brynu oddeutu 20%[5]. Dengys gwybodaeth am ddemograffeg yn adroddiad Kantar[6] ar hyrwyddiadau pris fod aelwydydd â phlant yn gwario mwy ar hyrwyddiadau o'i gymharu â'r rhai heb blant, fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yn eithaf bach. Gallai hyn fod o ganlyniad i siopau disgownt yn cynyddu eu cyfran o'r farchnad – yn enwedig ymhlith teuluoedd. Y gwahaniaeth rhwng graddau galwedigaethol mwy cefnog (ABC1) a llai cefnog (C2DE) yw bod y rhai yn y grŵp ABC1 yn gwario ychydig yn fwy ar hyrwyddiadau na grŵp C2DE, ond mae'r gwahaniaeth yn fach.

Ar y cyfan, o ystyried bod y gwahaniaeth yn fach, mae hyn yn awgrymu bod hyrwyddiadau yn apelio at deuluoedd o bob grŵp demograffig, gyda'r ffordd y cânt eu defnyddio yn debyg ar draws pob grŵp. Cefnogir hyn hefyd gan ganfyddiadau adroddiad diweddar gan Safonau Bwyd yr Alban, a ganfu nad oedd fawr ddim gwahaniaeth yng nghyfran yr egni a brynwyd fel rhan o hyrwyddiad yn ôl y cwintel pryniannau aelwydydd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban[7].

Cyn bwrw ymlaen â Rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr, cynhaliodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol adolygiad o lenyddiaeth ehangach hefyd ar wahaniaethau yn nifer y bobl sy'n manteisio ar hyrwyddiadau yn ôl statws neu amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Canfuwyd, yn debyg i ddata Kantar, fod rhai o'r canfyddiadau yn y llenyddiaeth academaidd yn awgrymu bod grwpiau statws economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fanteisio mwy ar hyrwyddiadau pris na grwpiau statws economaidd-gymdeithasol is[8]. Mae hyn o bosibl oherwydd bod gan unigolion mewn grwpiau statws economaidd-gymdeithasol uwch well dealltwriaeth ariannol a mwy o gyfalaf dynol i chwilio am hyrwyddiadau a manteisio

[5] Sugar reduction: from evidence into action - GOV.UK

[6] Dadansoddiad o rôl hyrwyddiadau pris ar eitemau bwyd a diod sy'n cael eu prynu i'r cartref ac sy'n cynnwys lefel uchel o siwgr, prosiect ymchwil ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Lloegr a gynhaliwyd gan Kantar Worldpanel UK, 2020. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/sugar-reduction-from-evidenceinto-action

[7] Foods and drinks purchased into the home in Scotland using data from Kantar Worldpanel, Food Standards Scotland, 2016. http://www.foodstandards.gov.scot/downloads/Food_and_Drinks_Purchased_into_The_Home_in_Scotland_report.pdf (Cyrchwyd ddiwethaf 19/01/2025)

[8] Nakamura R, Suhrcke M, Jebb S et al. (2015) Price promotions on healthier compared to less healthy foods: a hierarchical regression analysis of the impact on sales and social patterning of responses to promotions in Great Britain. American Journal of Clinical Nutrition 2015. 10.3945.

arnynt[9,10]. Ynghyd â mwy o lythrennedd ariannol, mae hefyd yn bosibl bod gan grwpiau statws economaidd-gymdeithasol uwch fynediad at fwy o adnoddau ariannol a gofodol, gan eu galluogi i fanteisio mwy ar hyrwyddiadau pris[11]. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl a oedd yn manteisio ar hyrwyddiadau ar gynhyrchion iachach yn uwch ymhlith y grŵp hwn – tra'r oedd nifer y bobl a oedd yn manteisio ar fwydydd llai iach yn debyg ar draws pob grŵp[12].

Er bod y dystiolaeth a adolygwyd gennym yn dangos bod y Rheoliadau yn debygol o gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar bob plentyn, gan gynnwys y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, rydym yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth i'w ystyried. Bydd adolygiadau ar ôl gweithredu'r Rheoliadau yn casglu tystiolaeth o unrhyw effeithiau ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth.

### 3. Ymgysylltu

Mae'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn cael ei goruchwylio gan Fwrdd Gweithredu Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Senedd Ieuenctid a'r Comisiynydd Plant. Mae effaith gordewdra ar blant a phobl ifanc wedi cael ei hystyried drwy gydol datblygiad y strategaeth a'r cynigion rheoleiddio hyn. Yn ystod ein hymgynghoriad cychwynnol ar yr Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022, fe wnaethom ymgynghori'n uniongyrchol ag ystod o blant a phobl ifanc a chynnal amrywiaeth o grwpiau ffocws penodol i gasglu safbwyntiau. Fe wnaethom hefyd benodi pum Llysgennad (gan gynnwys Llysgennad Plant ac Ieuenctid) fel rhan o'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a theuluoedd.

### 4. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|---|
| • Erthygl 2 – Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, crefydd, | | X | | Nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl gorau posibl i gael gafael ar fwyd iach a maethlon a fydd yn helpu i gefnogi twf iach beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud ac o ba fath bynnag deulu mae'n dod, |

[9] Tan, P. J., a Bogomolova, S. (2016). A descriptive analysis of consumer's price promotion literacy skills. International Journal of Retail & Distribution Management, 44(12), 1223-1244
[10] Kwon, K. N., a Kwon, Y. J. (2007). Demographics in sales promotion proneness: a socio-cultural approach. ACR North American Advances.
[11] Nakamura R, Suhrcke M, Jebb S et al. (2015) Price promotions on healthier compared to less healthy foods: a hierarchical regression analysis of the impact on sales and social patterning of responses to promotions in Great Britain. American Journal of Clinical Nutrition 2015. 10.3945.
[12] Ibid.

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|---|
| galluoedd, beth bynnag maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud ac o ba fath bynnag deulu maen nhw'n dod.<br>• Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.<br>• Erthygl 24 – Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da a hawl i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y byddan nhw'n cadw'n iach.<br>• Erthygl 27 – Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. | | X<br>X<br>X | | drwy wneud y dewis iach yn ddewis hawdd.<br><br>Mae'r asesiadau effaith uchod yn amlygu'r angen ar gyfer gwaith monitro gofalus i sicrhau bod y Rheoliadau yn cyflawni'r nodau hyn ar gyfer pob plentyn. Er hynny, credwn ar hyn o bryd y byddant yn cefnogi Erthyglau 3, 24 a 27 yn benodol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni argymhellion diweddaraf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gyfer y DU, lle argymhellir bod y DU yn gweithredu i fynd i'r afael â thueddiadau cynyddol o ran gorbwysau a gordewdra yn ystod plentyndod[13] (paragraff 41(e)).<br><br>Rydym yn gwybod y bydd gordewdra yn aros gyda phlant drwy gydol eu bywyd ac y bydd meithrin arferion iach yn ifanc yn helpu i liniaru ystod o ffactorau risg. Mae cynnydd hefyd mewn salwch cronig ymhlith plant, fel diabetes math 2, sy'n cael ei briodoli i ymddygiadau deietegol.<br><br>Bwriad newid yr amgylchedd bwyd yw cynyddu'r ystod o ddewis ac argaeledd cynhyrchion iachach i blant a phobl ifanc. Rydym am i blant gael yr hawl i gael gafael ar fwydydd iachach a lleihau rhwystrau i lawer o deuluoedd er mwyn helpu i alluogi dewisiadau sy'n hyrwyddo gwell iechyd. Bydd hyn yn cefnogi newidiadau cadarnhaol ochr yn ochr ag ystod o |

[13] https://documents.un.org/doc/undoc/gen/g23/112/77/pdf/g2311277.pdf

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | fesurau eraill a nodir yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'r cynllun cyflawni ategol. |

5. **Cyngor a phenderfyniad gweinidogol**

Mae dadansoddiad cyffredinol o'r effeithiau hyn i blant a phobl ifanc yn cefnogi'r achos dros fwrw ymlaen â Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025. Bydd swyddogion yn sicrhau bod y buddion hyn yn cael eu nodi'n glir o fewn yr holl gyngor gweinidogol sy'n ymwneud â'r rheoliadau arfaethedig.

6. **Cyhoeddi'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**

Caiff yr asesiad hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025.

7. **Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Gofynnwyd am safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth Cymru ar yr Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau ar hyrwyddo a lleoli o dan y thema 'Basgedi Siopa Iachach' a chyfyngiadau ar ddiodydd meddal llawn siwgr o dan y thema 'Bwyta'n Iachach y tu allan i'n Cartrefi'. Yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gennym gyda phlant a phobl ifanc ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, roedd consensws eang y dylid cymryd camau i gyfyngu ar hwylustod mynediad a hyrwyddiadau sy'n gwneud bwyd â lefelau uchel o fraster, siwgr neu halen yn ddeniadol i ddefnyddwyr. Roedd pob grŵp hefyd yn cefnogi'r cysyniad o wahardd ail-lenwi diodydd llawn siwgr am ddim.

8. **Monitro ac Adolygu**

Bydd yr adolygiad ar ôl gweithredu'r Rheoliadau hyn yn casglu tystiolaeth o effaith a bydd yn ystyried tystiolaeth o unrhyw effaith wahaniaethol ar blant o fewn gwahanol grwpiau o'r boblogaeth fel rhan o hyn. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw effeithiau ychwanegol a nodwyd.